# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Greenhill Manor**

**Cartref Gofal Greenhill Manor**
**Merthyr Tudful**
**CF48 4BE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/03/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Greenhill Manor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Hallmark Care Homes (Merthyr) Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 120 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29 Mehefin 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo bod y staff yn gofalu amdanynt yn Greenhill Manor. Mae'r staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl, a'u hymwelwyr, mewn modd cynnes a chyfeillgar. Mae cynlluniau personol yn fanwl, ac yn nodi anghenion gofal a chymorth, ynghyd â risgiau i ddiogelwch. Caiff adolygiadau eu cwblhau'n rheolaidd. Mae cydgysylltwyr ffordd o fyw yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau yn y cartref i'r bobl gymryd rhan ynddynt os ydynt yn dymuno.

Mae'r staff yn mwynhau eu gwaith ar y cyfan. Mae digon o gyfleoedd hyfforddi a datblygu, ac mae darparwr y gwasanaeth yn helpu'r staff i ddilyn cyrsiau mewnol ac allanol. Caiff cymorth ei roi yn anffurfiol a thrwy sesiynau goruchwylio un i un. Mae pedair cymuned yn y cartref, pob un yn arbenigo yn ei hanghenion gofal a chymorth ei hun. Mae'r pedair cymuned yn y cartref i'w gweld yn lân ac mewn cyflwr da. Caiff y cyfleustodau a'r cyfleusterau eu gwasanaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae prosesau sicrhau ansawdd cadarn ar waith, gan gynnwys ffyrdd o gasglu adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, ymwelwyr, a staff. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei redeg yn dda.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hannog i wneud dewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i symud o gwmpas eu cymunedau, i'r graddau y gallant wneud hynny'n ddiogel. Mae dewis o ardaloedd cymunedol ym mhob cymuned, neu gall y bobl dreulio amser ar eu pen eu hunain os ydynt yn dymuno. Gall ymwelwyr fynd a dod yn ddirwystr. Mae gan bob cymuned gydgysylltydd ffordd o fyw llawn amser sy'n gweithio i ganfod ffyrdd o symbylu'r bobl a'u hannog i ryngweithio â'i gilydd. Dywedodd rhai o'r bobl wrthym yr hoffent gael mwy o weithgareddau neu deithiau y tu allan i'r cartref, yn y gymuned, gan eu bod weithiau'n teimlo wedi diflasu. Gwnaethom gyfleu'r wybodaeth hon i'r rheolwr i'w hystyried.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg yn nodi peryglon posibl i iechyd a diogelwch unigolion, a'r ymyriadau sydd eu hangen. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant diogelu, ac mae polisi diogelu ar waith i roi arweiniad i'r staff ar sut i roi gwybod am bryderon os bydd angen. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio unrhyw faterion diogelu posibl ac yn cydweithio â thîm diogelu'r awdurdod lleol yn ôl yr angen.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Mae'r staff gofal, y nyrsys a'r rheolwyr yn cydweithio ag amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol allanol, fel meddygon teulu, therapyddion lleferydd ac iaith, a nyrsys seiciatrig cymunedol, er mwyn darparu gofal a chymorth cyfannol sy'n seiliedig ar wybodaeth. Ymddengys fod y staff gofal a'r nyrsys ym mhob cymuned yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Caiff meddyginiaeth ei chofnodi ar system electronig sy'n tynnu sylw'r defnyddiwr at unrhyw lofnodion sydd ar goll neu newidiadau i'r feddyginiaeth a roddir. Caiff archwiliadau eu cwblhau er mwyn nodi unrhyw wallau o ran meddyginiaeth a hyrwyddo ymarferion diogel parhaus. Mae polisi meddyginiaeth cyfredol ar waith.

Mae amgylchedd dymunol yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Mae amrywiaeth o ardaloedd cymunedol ym mhob cymuned, ac mae modd symud rhwng cymunedau i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ddefnyddio'r siop goffi a'r lolfa yng nghyntedd y prif adeilad. Mae ardal awyr agored hygyrch ar gael i'w defnyddio pan fo'r tywydd yn braf. Mae'r adeilad i'w weld yn lân ac mewn cyflwr da.

## Gofal a Chymorth

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan y bobl ar eu gofal. Gwnaethant ddweud wrthym: *"There are supportive and caring staff here," "I think [my partner] has good care here. They were on a lot of drugs in hospital and sleeping all the time, but not here"* a *"I think I could be told more about what is going on here. I didn't know some of the people here [in the person's community] had COVID."*

Roedd yr adborth a gafwyd ar weithgareddau yn cynnwys: *"the activities here are great, I hang around with my friends," "they do have people in to do a show or something as well as the workers here."* Dywedodd eraill: *"I wish there were more staff to take [relative] out into the garden,"* a *"I'm not interested in this stuff they do; I'd like to go out somewhere on a minibus or something."*

Mae'r staff gofal yn meddu ar y wybodaeth gywir i allu rhoi'r gofal cywir i'r bobl ar yr adeg gywir. Mae Greenhill Manor yn cadw'r dogfennau gofal i gyd ar system electronig. Mae'r staff yn mewnbynnu gwybodaeth mewn amser real a chaiff negeseuon atgoffa eu gosod ar gyfer camau gweithredu gofynnol. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion presennol ac mae asesiadau risg yn nodi trothwyon ymyrryd. Caiff siartiau monitro a gofal ategol, fel siartiau adleoli, siartiau bwyd a hylif, a siartiau monitro pwysau, eu cwblhau gan amlaf fel yr amlinellir yn y cynlluniau personol. Dywedodd y rheolwr y caiff rhai siartiau eu symleiddio er mwyn sicrhau mai dim ond y siartiau perthnasol sydd ar gael i'r staff. Mae'r nyrsys yn adolygu ffeiliau gofal yn rheolaidd ac yn eu diweddaru yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i bawb. Mae angen cymorth ychwanegol ar rai pobl sy'n byw yn Greenhill Manor i gynnal iechyd y croen ac os bydd eu croen yn torri, mae angen rheoli'r clwyf yn dda. Gwelsom dystiolaeth bod clwyfau'n cael eu cofnodi, eu mesur, a bod lluniau'n cael eu tynnu ohonynt a bod negeseuon atgoffa rheolaidd yn cael eu gosod er mwyn gweld sut y maent yn gwella.

Gall y bobl ddewis eu prydau bwyd. Mae bwydlen ddyddiol â dau ddewis bob pryd bwyd ac, amser cinio, gwelsom y staff gofal yn cynnig dewisiadau eraill i'r bobl nad oeddent eisiau'r prif opsiynau. Caiff anghenion deietegol arbennig, fel deiet diabetig neu ddeiet piwrî, eu diwallu. Cysylltir â therapyddion lleferydd ac iaith os oes unrhyw bryderon am lyncu neu dagu.

Mae arferion digonol ar waith i reoli heintiau. Ar adeg ein hymweliad, cafwyd rhai achosion positif o COVID 19 yn un o'r cymunedau. Dilynir canllawiau priodol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac yn ei newid yn rheolaidd fel sy'n ofynnol. Mae polisi rheoli heintiau ar waith. Mae tîm o staff domestig yn cwblhau

rhaglen lanhau drylwyr. Ar ddiwrnodau ein hymweliad, roedd pob cymuned i'w gweld yn lân ac yn daclus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac wedi'i addurno a'i ddodrefnu'n briodol. Mae gan y cartref bedair cymuned sydd wedi'u rhannu dros ddau lawr, ac mae adain chwith ac adain dde i'r adeilad. Mae siop goffi gymunedol ac ardal eistedd yn y cyntedd, ac mae lle i fyny'r grisiau ar gyfer ystafell hyfforddi a chynadledda. Mae lifft ar gael fel y gall y bobl ag anawsterau symud fynd i bob rhan o'r cartref. Mae gan y cymunedau eu hystafelloedd sinema eu hunain, ac mae'r bobl yn y gymuned yn hoffi'r ffordd y mae'r ardaloedd cymunedol wedi'u haddurno. Caiff ystafelloedd gwely eu personoli ag eiddo'r bobl. Mae cyfarpar arbenigol a chymhorthion fel teclynnau codi, cymhorthion bath, cadeiriau gogwyddol a chadeiriau olwyn, ar gael i bawb sydd eu hangen.

Gwelsom dystiolaeth o raglen dreigl o waith cynnal a chadw, gwirio a gwasanaethu i sicrhau bod y cartref, ei gyfleusterau a'i gyfarpar yn ddiogel. Mae trefniadau ar waith i fonitro ac archwilio iechyd a diogelwch, a defnyddir gweithwyr cynnal a chadw mewnol ac allanol. Gall y staff wneud cais am waith cynnal a chadw a bydd y contractwyr yn darparu amserlenni. Mae gan y bobl eu Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng a gaiff eu cadw mewn man cyfleus rhag ofn y bydd argyfwng. Caiff asesiadau a gwiriadau risg tân eu cynnal a chaiff y cyfarpar tân ei wasanaethu. Mae'n rhaid i ymwelwyr lofnodi llyfr ymwelwyr wrth fynd i mewn ac allan o'r adeilad er mwyn diogelu'r bobl rhag mynediad heb awdurdod.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rhoddodd y staff gofal adborth cadarnhaol i ni ar y cyfan am weithio yn Greenhill Manor. Gwnaethant ddweud wrthym: *“the team work well together to make a safe and happy community for the residents”*, *“it’s a lovely place to work in”, “carers work so hard to get support from doctors and the hospitals, which at the moment takes a long time”* a *“paperwork and care plans are too big for staff to fill out all day”.* Caiff sesiynau goruchwylio un i un ffurfiol rhwng aelodau o'r staff a'u rheolwyr llinell eu cynnal bob tri mis fel sy'n ofynnol, a chaiff arolygon staff eu dosbarthu er mwyn casglu adborth ychwanegol.

Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant sy'n addas i'w rolau ac mae cyfleoedd datblygu proffesiynol ar gael iddynt. Mae'r holl hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth yn gyfredol a chaiff y staff eu hatgoffa pan fydd angen iddynt adnewyddu eu hyfforddiant. Bydd aelodau newydd o staff yn cwblhau hyfforddiant sefydlu. Mae darparwr y gwasanaeth wedi llunio pecyn hyfforddi fel y gall aelodau dethol o'r staff hyfforddi i fod yn nyrsys cymwysedig ochr yn ochr â'u rolau presennol, yn ogystal â helpu staff tramor i drosi eu cymwysterau er mwyn gweithio yn y DU. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel, a chaiff y gwiriadau hunaniaeth a geirda perthnasol eu cwblhau. Mae gan yr holl staff sy'n gweithio ar hyn o bryd wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio.

Mae mesurau sicrhau ansawdd cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn cwblhau ymweliadau monitro bob tri mis a dau adroddiad y flwyddyn ar ansawdd y gofal. Cesglir adborth gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, ymwelwyr, a staff, a chaiff yr adborth hwn ei gyfuno ag archwiliadau a dadansoddiadau o amrywiaeth o ddigwyddiadau yn y cartref. Cynhelir dadansoddiad o wraidd y broblem ac ymchwiliadau mewnol pan fo angen lleihau'r risg y bydd rhywbeth yn digwydd eto. Mae polisïau a gweithdrefnau'n gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol berthnasol i roi arweiniad i'r staff mewn amrywiaeth o feysydd, os bydd angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/04/2023